COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2019

AELODAU

*Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
Y Cynghorydd Michael Dixon, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd		Bryan Apsley	Y Cynghorydd		Beverley Parry-Jones
"		I David Bithell, MBE	"		Paul Pemberton
"	*	Dana Davies	"	*	John Phillips
"	*	Frank Hemmings	"		John Pritchard
"		Gwenfair Jones	"	*	Paul Roberts
"		Paul Jones	"	*	Paul Rogers
"		David Maddocks	"		Graham Rogers
"	*	Tina Mannering	"		Andy Williams
"		John McCusker			

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Terry Evans a David J Griffiths

20 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Dana Davies, Tina Mannering, M G Morris, John Phillips, Paul Roberts a Paul Rogers.

21 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol.

22 NEWID DEFNYDD I FANWERTHU, STORIO A CHODI LLOFFT GOLOMENNOD (YN ÔL-WEITHREDOL) DRILL HALL HOUSE, RHODFA'R ORSAF, Y WAUN (CAIS RHIF P/2018/0863)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad mewn perthynas â'r cais uchod ac eglurodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio'r cynnig i Aelodau'r Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth ar y cais, nododd Aelodau bryderon mewn perthynas â baw colomennod a holwyd a fyddai modd gweithredu amod mewn perthynas â'r adar.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog na fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr eiddo cyfagos. Fodd bynnag, pe bai'r sefyllfa'n dirywio, gallai Gwarchod y Cyhoedd gymryd camau gofynnol drwy'r broses niwsans statudol.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif

Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad (COPR/11/19).

23 DEFNYDDIO RHAN O ANNEDD AR GYFER ADDYSG ACADEMAIDD A CHWNSELA YN Y CARTREF (DYDD LLUN-GWENER, YN YSTOD Y TYMOR YSGOL YN UNIG, RHWNG 17.00 O'R GLOCH A 20.00 O'R GLOCH) YN 16 FFORDD ARLEY, PANDY (CAIS RHIF: P/2019/0307)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad mewn perthynas â'r cais uchod ac eglurodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio'r cynnig i Aelodau'r Pwyllgor.

Wrth ystyried y cais, cafwyd trafodaeth a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Oed y disgyblion a allai gerdded i'r eiddo o'r briffordd gyhoeddus yn hytrach na chael eu gollwng tu allan gan gerbyd.
- Codwyd materion mewn perthynas â'r effaith ar gyfer trigolion lleol. Yn arbennig, y defnydd o ddreif preifat a rennir.
- Cyfeiriwyd at ohebiaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â mynediad digonol at y gwasanaethau brys.
- Awgrym y gallai eiddo cyfagos brofi amhariad ysgafn yn sgil cerbydau'n troi.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodir yn adroddiad (COPR/11/19) yn ogystal â'r ychwanegiad canlynol:

Ychwanegu Amod:

6. Bydd pob myfyriwr/ disgybl yn cael eu gollwng a'u codi o'r briffordd a fabwysiadwyd ar Ffordd Arley.

7. Bydd y defnydd a ganiateir yn dod i ben a rhoddir y gorau iddo cyn 30 Mehefin 2020.

Rhesymau

1. Lleihau tagfeydd ac amhariadau i aneddiadau cyfagos a wasanaethir o'r dreif preifat.
2. Monitro effaith y defnydd ar amwynder preswyl cyfagos.

Y Cynghorydd Michael Dixon
Is Gadeirydd